# Cofrestrfa Tir EF

## Cais am gofrestriad cyntaf

# FR1

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Rhaid i chi gyflwyno'r dogfennau teitl gyda'r cais hwn; rhaid iddynt gael eu rhestru ar Ffurflen DL.

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.cy.

Mae trawsgludwr yn derm a ddefnyddir yn y ffurflen hon. Fe'i diffinnir yn rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003 ac mae'n cynnwys unigolion a awdurdodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neilltuedig yn ymwneud â chofrestru tir ac mae'n cynnwys cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| |
|---|
| AR GYFER COFRESTRFA TIR EF YN UNIG<br>Cofnod o'r ffïoedd a dalwyd |
| Manylion gordaliad/tandaliad |
| Cyfeir-rif<br>Ffïoedd a ddebydwyd £ |

Os yw mwy nag un awdurdod lleol yn gwasanaethu'r ardal, nodwch yr un y byddwch yn talu'r dreth gyngor neu ardrethi busnes iddo fel rheol.

1 Yr awdurdod lleol sy'n gwasanaethu'r eiddo:

Rhowch gyfeiriad gan gynnwys cod post (os oes) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo, er enghraifft 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'.

Wrth gofrestru rhent-dâl, proffid à prendre mewn gros neu ryddfraint, rhowch ddisgrifiad, er enghraifft 'Rhent-dâl (neu fel y bo'n briodol) dros 2 Acacia Avenue'.

2 Eiddo:

Rhowch 'X' yn y blwch priodol. Defnyddiwch y trydydd dewis dim ond os oes cyfeiriad gan yr eiddo ac mae wedi ei ffensio ar y tir.

Defnyddiwch yr opsiwn cyntaf dim ond os yw'r cynllun wedi ei atodi i'r ffurflen FR1.

Nodwch sut y cyfeirir ato, er enghraifft 'a amlinellir yn goch'.

Nodwch natur a dyddiad y ddogfen.

Mae methu â chwblhau'r panel hwn yn gywir yn debygol o arwain at wrthod y cais.

3 Mae stent y tir i'w gofrestru wedi ei ddynodi'n eglur ar y rhifyn cyfredol o fap yr Arolwg Ordnans o'r

☐ cynllun atodedig ac wedi ei ddangos:

☐ cynllun wedi ei atodi i:

☐ y cyfeiriad a ddangoswyd ym mhanel 2

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

4 Y dosbarth o deitl y gwneir cais amdano yw

☐ rhydd-ddaliol llwyr

☐ rhydd-ddaliol meddiannol

☐ prydlesol llwyr

☐ prydlesol da

☐ prydlesol meddiannol

I gael rhagor o wybodaeth am ein ffïoedd gweler www.gov.uk/government/collections/ffioedd-cyfarwyddiadau-cofrestrfa-tir-em.cy

Bydd methu â chofnodi gwerth marchnadol cyfredol y tir yn y panel hwn a/neu gynnwys ffi yn seiliedig ar Raddfa 1 yn arwain at anfon ymholiad neu wrthod y cais.

Cofiwch y gall cyfyngiadau mewn gweithredoedd fod yn gymwys i weithredoedd eraill o flaenoriaeth is yn y rhestr hon, oni bai eich bod yn nodi fel arall.

Rhowch ‘X’ yn y blwch priodol. Codir y ffi i’r cyfrif a nodwyd ym mhanel 7.

Rhowch enw(au) llawn y sawl sy’n gwneud cais am gofrestriad cyntaf. Os yw trawsgludwr yn cyflwyno’r cais, rhaid nodi enw(au) y cleient(iaid), nid y trawsgludwr.

Os yw’r cais wedi ei seilio ar feddiant gwrthgefn neu weithredoedd coll, gallwch ychwanegu rhif ffôn a/neu gyfeiriad ebost ar gyfer y ceisydd i’w ddefnyddio i drefnu unrhyw arolwg tir y gallai fod ei angen.

Cwblhewch fel y bo’n briodol os yw’r ceisydd yn gwmni. Hefyd, ar gyfer cwmni tramor, oni bai bod trefniadau wedi’u gwneud gyda Chofrestrfa Tir EF, cyflwynwch naill ai dystysgrif yn Ffurflen 7 yn Atodlen 3 i Reolau Cofrestru Tir 2003 neu gopi ardystiedig o’r cyfansoddiad yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu dystiolaeth arall a ganiateir gan reol 183 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Nodwch rif adnabod yr endid tramor a ddyroddir gan Dŷ’r Cwmnïau ar gyfer y ceisydd yn unol â Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) 2022. Os nad yw’r rhif adnabod yn ofynnol, gallwch nodi ‘ddim yn ofynnol’ yn lle.

Ceir rhagor o fanylion am endidau tramor yng nghyfarwyddyd ymarfer 78: endidau tramor.

Rhaid cwblhau’r panel hwn ar bob adeg.

Dim ond i gwsmeriaid proffesiynol, fel cyfreithwyr, mae rhif allwedd ar gael.

Os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, codir y ffi i’r cyfrif hwn.

Dyma’r cyfeiriad y byddwn yn anfon ymholiadau ac yn dychwelyd dogfennau ato fel rheol. Fodd bynnag os rhowch gyfeiriad ebost, byddwn yn defnyddio hwn lle bynnag y bo’n bosibl.

Anfonir cydnabyddiad bod y cais hwn wedi dod i law trwy ebost os oes un ar gael.

Dim ond os yw cyfeiriad ebost yn cael ei nodi y byddwn yn anfon llythyron rhybudd am ddileu at drawsgludwyr.

5 Cais, blaenoriaeth a ffïoedd

| Ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth | Pris a dalwyd/Gwerth (£) | Ffïoedd a dalwyd (£) |
|---|---|---|
| Cofrestriad cyntaf o’r ystad rydd-ddaliol/ystad brydlesol | | |
| | | |
| | | |
| | Cyfanswm ffïoedd (£) | |

Dull talu ffïoedd

☐ siec yn daladwy i ‘Cofrestrfa Tir’

☐ debyd uniongyrchol, o dan gytundeb gyda’r Gofrestrfa Tir

6 Y ceisydd:

Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Rhif cofrestredig y cwmni neu’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

Ar gyfer endidau tramor

(a) Tiriogaeth ei gorffori neu ei ffurfio:

(b) Rhif adnabod yr endid tramor a ddyroddir gan Dŷ’r Cwmnïau, gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

(c) Lle bo’r endid yn gwmni sydd â lle busnes yn y Deyrnas Unedig, y rhif cofrestredig, os oes un, a ddyroddir gan Dŷ’r Cwmnïau, gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

7 Anfonir y cais hwn i’r Gofrestrfa Tir gan

Rhif allwedd (os yw’n gymwys):

Enw:

Cyfeiriad neu rif blwch DX yn y DU:

Cyfeiriad ebost:

Cyfeirnod:

| | |
|---|---|
| | Rhif ffôn: \| Rhif ffacs: |
| Rhowch 'X' yn y blwch priodol.<br><br>Yma ac ym mhanel 10, gall pob perchennog roi hyd at dri chyfeiriad ar gyfer gohebu a rhaid i un ohonynt fod yn gyfeiriad post boed yn y DU neu beidio (gan gynnwys cod post, os oes). Gall y cyfeiriadau eraill fod yn unrhyw gyfuniad o gyfeiriad post, rhif blwch DX yn y DU neu gyfeiriad ebost. | **8** Cyfeiriad(au) ar gyfer gohebu pob perchennog yr ystad i'w gofnodi yn y gofrestr yw<br>☐ cyfeiriad yr eiddo (os yw'n un cyfeiriad post)<br>☐ y cyfeiriad(au) canlynol: |
| Os oes mwy nag un ceisydd, rhowch 'X' yn y blwch priodol.<br><br>Cwblhewch fel y bo angen.<br><br>Bydd y cofrestrydd yn cofnodi cyfyngiad Ffurf A yn y gofrestr *oni bai*:<br>– y rhoddir 'X':<br>  – yn y blwch cyntaf, neu<br>  – yn y trydydd blwch a bod manylion yr ymddiried neu'r offeryn ymddiried yn dangos bod y ceiswyr i ddal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig neu fel cyd-denantiaid, *neu*<br>– ei bod yn glir wrth lenwi'r ffurflen JO a gyflwynwyd gyda'r cais hwn bod y ceiswyr i ddal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig fel cyd-denantiaid.<br><br>Gweler *Cydberchnogaeth* a *chyfarwyddyd ymarfer 24: ymddiriedau tir preifat* am arweiniad pellach. Mae'r ddau ar gael ar wefan GOV.UK. | **9** Os oes mwy nag un ceisydd<br>☐ maent yn dal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain fel cyd-denantiaid<br>☐ maent yn dal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain fel tenantiaid cydradd â chyfrannau cyfartal<br>☐ maent yn dal yr eiddo ar ymddiried: |
| Os oes cyfeirnod MD gan arwystl byddwn yn anwybyddu'r cyfeiriad a roddwyd yn y panel hwn oni bai bod yr arwystl o blaid banc y Deyrnas Unedig ac nid yw ffurflen yr arwystl nac unrhyw gytundeb sydd gennym gyda'r rhoddwr benthyg yn nodi cyfeiriad ar gyfer gohebu.<br><br>Ar gyfer cyfeiriadau a ganiateir gweler y nodyn ar banel 8.<br><br>Cwblhewch fel y bo'n briodol os yw perchennog yr arwystl yn gwmni. Hefyd, ar gyfer cwmni tramor, oni bai bod trefniadau wedi'u gwneud gyda Chofrestrfa Tir EF, cyflwynwch naill ai dystysgrif yn Ffurflen 7 yn Atodlen 3 i Reolau Cofrestru Tir 2003 neu gopi ardystiedig o'r cyfansoddiad yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu dystiolaeth arall a ganiateir gan reol 183 o Reolau Cofrestru Tir 2003. | **10** Enw a chyfeiriad(au) ar gyfer gohebu perchennog unrhyw arwystl i'w gofnodi yn y gofrestr:<br><br>Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig<br>Rhif cofrestredig y cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:<br><br>Ar gyfer cwmnïau tramor<br>(a) Tiriogaeth ei gorffori:<br><br>(b) Rhif cofrestredig yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad: |
| Os yw'r datganiad hwn yn gymwys (i) rhowch 'X' yn y blwch a (ii) amgaewch Ffurflen DI.<br><br>Mae rheol 28 o Reolau Cofrestru Tir 2003 yn dangos y buddion gor-redol dadlenadwy y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt. | **11** Buddion gor-redol dadlenadwy<br>☐ Mae buddion gor-redol dadlenadwy yn effeithio ar yr ystad. |

Rhaid cwblhau'r panel hwn ar gyfer pob cais am gofrestriad cyntaf waeth a ydych yn dibynnu ar ddogfennau teitl, neu ar ddatganiad statudol neu ddatganiad o wirionedd yn unig. Mae methu â chwblhau'r panel hwn yn debygol o arwain at wrthod y cais.

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Os yw'n gymwys cwblhewch yr ail ddatganiad gyda manylion y budd(ion); yn achos buddion sy'n cael eu dadlennu dim ond trwy chwiliadau, peidiwch â chynnwys y rhai sy'n cael eu dangos ar chwiliadau pridiant tir lleol. Ardystiwch unrhyw fuddion sy'n cael eu dadlennu gan chwiliadau nad ydynt yn effeithio ar yr ystad sy'n cael ei chofrestru.

## 12 Tystysgrif

Mae'r teitl wedi ei seilio ar y dogfennau teitl sy'n cael eu rhestru yn Ffurflen DL, hynny yw, popeth sydd o dan reolaeth y ceisydd.

Mae manylion hawliau, buddion a hawliadau sy'n effeithio ar yr ystad (heblaw buddion nad oes yn rhaid eu dadlennu sy'n dod o fewn rheol 28(2) o Reolau Cofrestru Tir 2003) sy'n hysbys i'r ceisydd, os yw'n gymwys, wedi eu dadlennu yn y dogfennau teitl a Ffurflen DI os yw'n cael ei chyflwyno gyda'r cais hwn.

☐ Nid yw'r ceisydd yn gwybod am unrhyw hawliau, buddion a hawliadau eraill o'r fath. Dim ond y ceisydd sydd mewn union feddiant o'r eiddo neu'n derbyn rhent ac elw'r eiddo.

☐ Mae'r ceisydd yn gwybod am yr hawliau, buddion a hawliadau ychwanegol canlynol yn unig, gan gynnwys rhai unrhyw un (heblaw'r ceisydd) sydd mewn union feddiant o'r eiddo neu'n derbyn rhent ac elw'r eiddo:

Os na rowch 'X' yn y blwch byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi archwilio teitl y ceisydd neu wedi argyhoeddi eich hun ei fod wedi ei archwilio yn y ffordd arferol.

## 13 Archwilio teitl

☐ Nid wyf/Nid ydym wedi archwilio teitl y ceisydd i'r ystad yn llawn, gan gynnwys unrhyw hawliau perthynol, neu argyhoeddi fy hun/ein hunain ei fod wedi ei archwilio'n llawn gan drawsgludwr yn y ffordd arferol cyn y cais hwn.

**Fe welwch fanylion llawn am y dystiolaeth hnaniaeth sy'n ofynnol yng [nghyfarwyddyd ymarfer 67] ac yn '[Llenwi'r paneli tystiolaeth hunaniaeth ar ffurflenni AP1, FR1, DS2]' sydd ar gael o wefan GOV.UK.**

Mae'r gofyniad i gofrestru wedi ei gynnwys yn adran 4 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Mae canllawiau pellach i'w cael yng Nghyfarwyddyd ymarfer 1.

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Mae trawsgludwr yn derm a ddefnyddir yn y ffurflen hon. Fe'i diffinnir yn rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003 ac mae'n cynnwys unigolion a awdurdodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neilltuedig yn ymwneud â chofrestru tir ac mae'n cynnwys cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig.

14 Cadarnhau hunaniaeth

Wrth gofrestru trosglwyddiadau, arwystlon, prydlesi a gwarediadau eraill o dir, mae'r Gofrestrfa Tir yn dibynnu ar y camau y mae'r trawsgludwyr yn eu cymryd, lle y bo'n briodol, i wirio hunaniaeth eu cleientiaid. Mae'r gwiriadau hyn yn lleihau'r risg o dwyll eiddo.

Os nad oedd rhywun wedi ei gynrychioli gan drawsgludwr, mae'r Gofrestrfa Tir yn gofyn am 'dystiolaeth hunaniaeth' ar gyfer yr unigolyn hwnnw, ac eithrio os yw'r dewis arall cyntaf ym mhanel 15(2) yn gymwys.

Mae 'tystiolaeth hunaniaeth' yn dystiolaeth a ddarparwyd yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd cyfredol a wnaed gan y Prif Gofrestrydd Tir o dan adran 100(4) o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 at ddiben cadarnhau hunaniaeth unigolyn.

Os yw'r cais hwn i gofrestru trosglwyddiad, prydles neu arwystl, dyddiedig ar neu ar ôl 10 Tachwedd 2008 **ac** mae'r gofyniad i gofrestru yn gymwys, cwblhewch un o'r canlynol

☐ Rwyf yn drawsgludwr, ac rwyf wedi cwblhau panel 15

☐ Nid wyf yn drawsgludwr, ac rwyf wedi cwblhau panel 16

Rhowch 'X' yn y blwch yn yr ail golofn os yw'r unigolyn neu'r cwmni sy'n anfon y cais i Gofrestrfa Tir EF wedi cynrychioli'r parti hwnnw yn y trafodiad. Fel arall cwblhewch y manylion yn y drydedd golofn. Os nad yw'r parti wedi ei gynrychioli rhowch 'dim' yn y drydedd golofn.

Darperir blwch ar wahân, neu gellir ychwanegu un, ar gyfer pob parti, fel sy'n ofynnol gan banel 15(1). Mae hynny'n cynnwys blychau ar wahân ar gyfer atwrneiod a rhoddwyr lle bo'n briodol.

15 Os yw'r cais yn cael ei anfon i'r Gofrestrfa Tir gan drawsgludwr

(1) Manylion y trawsgludwr sy'n gweithredu

Os ydych yn anfon cais i gofrestru trosglwyddiad, prydles neu arwystl, ar gyfer pob parti i bob gwarediad sydd i'w gofrestru, nodwch yn y tabl isod fanylion y trawsgludwr (os oes) a oedd wedi'i gynrychioli.

Os nad yw parti wedi ei gynrychioli gan drawsgludwr rhaid i chi gwblhau (2) isod hefyd.

| Enw'r trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg | | Enw, cyfeiriad a chyfeirnod y trawsgludwr |
|---|---|---|
| | ☐ | Cyfeirnod: |
| | ☐ | Cyfeirnod: |
| | ☐ | Cyfeirnod: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | Cyfeirnod: |
| | | | Cyfeirnod: |

Rhowch 'X' yn y blwch (blychau) priodol.

Rhowch enw pob trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg sydd heb ei gynrychioli rydych yn rhoi'r cadarnhad hwn ar ei gyfer.

**Fe ddiffinnir tystiolaeth hunaniaeth ym mhanel 14. Fe welwch fanylion llawn am y dystiolaeth hunaniaeth sy'n ofynnol yng nghyfarwyddyd ymarfer 67 sydd ar gael o wefan GOV.UK.**

(2) Tystiolaeth hunaniaeth

Os nad oedd trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg yn (1) wedi ei gynrychioli gan drawsgludwr

☐ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi argyhoeddi fy hun bod camau digonol wedi cael eu cymryd i wirio hunaniaeth

ac mai ef/hi yw'r trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg a restrwyd yn (1) (fel y bo'n briodol)

☐ Rwy'n amgáu tystiolaeth hunaniaeth ar gyfer pob trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg sydd heb ei gynrychioli nad wyf wedi darparu'r cadarnhad uchod ar ei gyfer

16 Os yw'r cais yn cael ei anfon i'r Gofrestrfa Tir gan rywun sydd heb fod yn drawsgludwr

(1) Manylion y trawsgludwr sy'n gweithredu

Os ydych yn anfon cais i gofrestru trosglwyddiad, prydles neu arwystl (hy, morgais), ar gyfer pob parti i bob gwarediad sydd i'w gofrestru, nodwch yn y tabl isod fanylion y trawsgludwr (os oes) a oedd wedi ei gynrychioli.

Rhaid i chi gwblhau (2) isod hefyd:

Os nad yw'r parti wedi ei gynrychioli rhowch 'dim' yn yr ail golofn.

Darperir blwch ar wahân, neu gellir ychwanegu un, ar gyfer pob parti, fel sy'n ofynnol gan banel 16(1). Mae hynny'n cynnwys blychau ar wahân ar gyfer atwrneiod a rhoddwyr lle bo'n briodol.

| Enw'r trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg | Enw, cyfeiriad a chyfeirnod y trawsgludwr |
|---|---|
| | Cyfeirnod: |
| | Cyfeirnod: |
| | Cyfeirnod: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfeirnod: |
| | | Cyfeirnod: |

Rhowch ‘X’ yn y blwch (blychau) priodol.

**Fe ddiffinnir tystiolaeth hunaniaeth ym mhanel 14. Mae manylion llawn y dystiolaeth hunaniaeth sy’n ofynnol i’w gweld yn ‘Llenwi’r paneli tystiolaeth hunaniaeth ar ffurflenni AP1, FR1, DS2’ sydd ar gael o wefan GOV.UK.**

(2) Mae tystiolaeth hunaniaeth

☐ ar gyfer pob ceisydd a enwir ym mhanel 6 wedi ei hamgáu

☐ ar gyfer pob trosglwyddwr, landlord, trosglwyddai, tenant, cymerwr benthyg neu roddwr benthyg sydd heb ei gynrychioli a restrir yn (1) wedi ei hamgáu

17

Os yw trawsgludwr yn gweithredu ar ran y ceisydd, rhaid i’r trawsgludwr hwnnw lofnodi.

Llofnod y trawsgludwr: ..........................................

Dyddiad:

NEU

Os nad yw trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i’r ceisydd (ac os oes mwy nag un, pob un ohonynt) lofnodi.

Llofnod y ceisydd: ..........................................

Dyddiad:

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu’n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu’n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu’r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni’r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a’r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu’r ddau.

Os nad ydych yn llenwi’r ffurflen hon gyda’r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae’r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy’n ymwneud â chais a gyflwynir i’r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio a’u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i’r rhan honno o’r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 07/24